Cylchlythyr #2: Haf 2018

Pencampwyr Rhywogaethau

ACau yn codi llais dros rywogaethau sydd dan fygythiad ac mewn perygl

Dangos y cariad tuag at rywogaethau mewn perygl



Bathodynnau 'Dangos y Cariad' a wnaed gan weithredwyr yr RSPB ar gyfer AC Pencampwyr Rhywogaethau.







Roedd aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn falch iawn o ddathlu'r ymgyrch 'Dangos y Cariad' gyda'n Pencampwyr Rhywogaethau ym mis Chwefror. Mae Cynghrair yr Hinsawdd yn gofyn i bobl greu calonnau gwyrdd i ddangos faint mae'r amgylchedd yn ei olygu iddyn nhw ac i godi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd. Mae cymaint o'n rhywogaethau bregus mewn perygl o ganlyniad i newid hinsawdd – gyda chynefinoedd, tymheredd a thymhorau'n newid – felly gofynnodd yr RSPB i'w 'crefftweithwyr' greu bathodynnau ar gyfer AC Pencampwyr Rhywogaethau. Cynhyrchwyd dwsinau o fathodynnau manwl a hardd ganddyn nhw'n dangos rhywogaethau Cymreig penodol; allwn ni ddim diolch digon iddyn nhw am eu gwaith.

Derbyniodd pob un o'n AC Pencampwyr Rhywogaethau ar y pryd fathodyn, un ai'n bersonol neu drwy'r post. Anfonwyd hefyd amryw o galonnau gwyrdd i Weinidogion Llywodraeth Cymru i ddiolch iddyn nhw am weithredu ar newid hinsawdd gyda'u targedau carbon. Mae cynefinoedd ein rhywogaethau yn cael eu herydu gan newid hinsawdd ac mae angen i ni weithredu.

Pwy yw Pencampwyr Rhywogaethau'r Cynulliad?

Gwiber - Hefin David
Môr-wennol y gogledd - Hannah Blythyn
Onnen - David Melding
Pâl - Paul Davies
Cacynnen y llus - Leanne Wood
Chwilen olew ddu - Rebecca Evans
Dolffin trwyn potel - Joyce Watson
Y brithyll - Kirsty Williams
Brân goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Llyffant dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Llŷr Gruffydd
Llysywen Ewropeaidd - Dawn Bowden
Corryn rafft y ffen - Caroline Jones
Misglen befriog yr afon - Nick Ramsay
Ystlum pedol mwyaf - Angela Burns
Morlo llwyd - Dai Lloyd
Llamhidydd - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Britheg frown - Jane Hutt
Llyngyren ddiliau - Siân Gwenllian
Cornchwiglen - Huw Irranca-Davies
Ystlum pedol lleiaf - Suzy Davies
Wystrys brodorol - Julie James
Troellwr mawr - Vikki Howells
Britheg berlog - Russell George
Bele - Simon Thomas
Gwiwer goch - Darren Millar
Y siwin - Elin Jones
Hwyaden yr eithin - Jayne Bryant
Cardwenynen feinlais - Steffan Lewis
Glesyn bach - Mike Hedges
Migwyn - Alun Davies
Gwennol ddu - Jenny Rathbone
Llinos y mynydd - Siân Gwenllian
Llygoden bengron y dŵr - John Griffiths
Madarch cap cwyr - Julie Morgan
Cennin Pedr Cymreig - Vaughan Gething
Cleren Fai felen - Mohammad Asghar

Cyfranwyr: Jenny MacPherson, Vincent Wildlife Trust; Richard Garner Williams, Salmon & Trout Conservation Cymru; Clare Dinham, Buglife; Liz Smith, WEL.
Lluniau: Liz Smith, WEL; Natasha Yorke-Edgell, RSPB. Vincent Wildlife Trust.

Bant â ni ar gyfer y Ffau Bele newydd!



Ym mis Mehefin, agorodd AC Pencampwr y Bele – Simon Thomas AC – 'Ffau'r Bele', canolfan ymwelwyr newydd ym Mhont-ar-fynach. Fe'i cynhaliwyd gan Reilffordd Dyffryn Rheidol ac agorwyd hefyd gerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn ganddyn nhw. Mae Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt Vincent yn gweithio i adfer y bele yng nghanolbarth Cymru ac mae'r ganolfan newydd yn rhoi hanes dychweliad yr anifail brodorol hwn. Yn y Ffau newydd, mae ymwelwyr yn gallu dysgu mwy amdanyn nhw, cerdded llwybrau'r bele a chofnodi unrhyw gipolwg ar y bele. Saif y Ffau mewn adeilad pont pwyso wedi ei adfer ac mae'n ychwanegiad gwych i Reilffordd Rheidol.

Pencampwyr y Llysywen Ewropeaidd a Chleren Fai Felen

Mae'r Cyswllt yn falch o groesawu dau AC arall i'r project. Mae Dawn Bowden AC wedi dewis ymuno â Chadwraeth Eogiaid a Brithyllod Cymru ac Afonydd Cymru er mwyn gweithredu ar ran y Llysywen Ewropeaidd. Mae'r rhywogaeth hon wedi ei gosod gan yr IUCN yn y categori Mewn Perygl Difrifol mewn ymateb i brinhad o 90-95% dros y blynyddoedd diwethaf. Dyma'r unig bysgodyn yn Ewrop sy'n dychwelyd i'r môr i fagu, gan gychwyn ar daith enfawr o 4,000 o filltiroedd i'w ardaloedd silio ym Môr Sargasso. Mae'r llysywen yn gydran bwysig o ddeiet rhywogaethau eiconig fel y dyfrgi, gwalch y pysgod a'r crëyr glas, tra bod llysywod ifainc yn darparu ffynhonnell arwyddocaol o fwyd i lawer o rywogaethau eraill yn y gwanwyn, cyfnod pan mae gofynion y tymor magu ar eu hanterth.

Mohammad Asghar AC sy'n camu ymlaen i fod yn bencampwr i'r Cleren Fai Felen. Credir fod y pryfyn hwn yn prinhau ledled Ewrop, gyda'r DU ar gwr ei ddosbarthiad. Ei gadarnle yw'r afon Wy, ond mae adroddiadau diweddar yn awgrymu ei fod unwaith eto wedi ei gofnodi ar yr Wysg. Mae'r rhywogaeth hon yn dibynnu ar ddŵr o ansawdd da a chredir bod llif isel yn effeithio'n andwyol arni. Gan fod oedolion y rhywogaeth hon yn cael eu denu at olau, efallai bod lleoli lampau stryd a goleuon tebyg yn agos at lannau afonydd hefyd yn cael effaith niweidiol ar boblogaethau sy'n magu. Bydd Mohammad yn cael ei gynghori ynglŷn â'r llu o fygythiadau sy'n wynebu'r rhywogaeth brin hon gan y prif gyrff Buglife Cymru a Chadwraeth Eogiaid a Brithyllod Cymru.

Pencampwyr Rhywogaethau yn mynd ar ymweliadau gydag aelodau'r Cyswllt



Chwith i'r dde: Paul Davies AC ar Ynys Sgomer i weld ei rywogaeth, Pâl yr Atlantig; Lee Waters AC yn Ysbyty Adar Gŵyr, yn gwylio draenog yn cael ei dagio; Jane Hutt AC a Vaughan Gething AC, yn edrych ar gennin Pedr Cymreig ym Mro Morgannwg.

Canolbwyntio ar fater: Llygredd neonicotinoidaidd yn nyfroedd croyw

Mae poblogaethau o infertebratau dŵr croyw yn cynrychioli rhan bwysig o fioamrywiaeth y DU, yn darparu gwasanaethau ecosystem gwerthfawr, yn ailgylchu mater organig ac yn cadw afonydd yn lân. Hefyd, maen nhw'n darparu bwyd hanfodol ar gyfer pysgod ac adar.

Mae pryfed dyfrol yn cael eu niweidio gan bryfladdwyr neonicotinoidaidd (neu 'neonig') yn union fel gwenyn a phryfed ehedol, ac eto dydyn nhw ddim wedi derbyn yr un sylw oherwydd diffyg monitro systematig. Er bod llygredd neonig yn effeithio ar ystod eang o infertebratau dŵr croyw, y rhai sydd yn tueddu i fod fwyaf sensitif yw pryfed Mai, pryfed gwellt, pryfed y gro a chwilod.

O dan fenter Rhestr Wirio Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, roedd yn ofynnol i'r DU gyflwyno cynllun monitro peilot ar gyfer pob un o'r pum neonig a ddefnyddir amlaf: Imidacloprid, Clothianidin, Thiamethoxam, Acetamiprid a Thiacloprid. Yn 2016, samplwyd 26 safle ledled y DU, gydag 16 yn Lloegr, 4 yn yr Alban, 3 yng Nghymru a 3 yng Ngogledd Iwerddon. Ymgymerodd Buglife â dadansoddiad llawn o'r canlyniadau ac roedd yn amlwg bod problem arwyddocaol iawn gyda llygredd neonicotinoidaidd. Ar lefel y DU, **roedd 74% o'r safleoedd a gafodd eu monitro wedi eu llygru â neonigau;** roedd 8 afon uwchben yr uchafbwynt llygredd cronig a 2 uwchben yr uchafbwynt llygredd difrifol. Roedd yr afonydd a oedd uwchben eu huchafbwyntiau i gyd yn Lloegr, gyda chlwstwr yn Nwyrain Lloegr lle ceir amaethyddiaeth tir âr yn bennaf.

Yng Nghymru, ymgymerwyd â samplo cemegau'r Rhestr Wirio gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar yr afonydd Troddi , y Mawddach a'r Tywi. O'r 3 sampl, dim ond yn y Troddi y cafwyd hyd i neonigau ac roedd wedi ei llygru gan Clothianidin ac Imidacloprid. Mae angen mwy o samplo cynhwysfawr ar frys er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae neonicotinoidau yn effeithio ar ein dyfroedd croyw yng Nghymru.

Cynhyrchodd Buglife restr o argymhellion a anfonwyd at holl asiantaethau statudol y DU yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae CNC wedi datgan y bydd yn parhau i fonitro neonicotinoidau fel rhan o Raglen Rhestr Wirio'r EQSD; bydd yn cymryd rhan mewn rhaglenni eraill o waith gydag asiantaethau eraill; a bydd yn ystyried monitro ychwanegol o rai neonicotinoidau i werthuso risgiau penodol i ddyfroedd croyw Cymru. Gellir lawrlwytho adroddiad 'Plaladdwyr neonicotinoidaidd yn nyfroedd croyw Prydain' yma.

AC gyda bathodynnau Rhywogaethau



Amlygu tynged y gylfinir yng Ngŵyl y Gelli Gandryll

Yng Ngŵyl y Gelli Gandryll eleni, ymunodd ein Pencampwr y Gylfinir, Mark Isherwood, gyda'r awdur a'r cadwraethwr, Mary Colwell, a Chyfarwyddwr Cadwraeth Byd-eang yr RSPB, Martin Harper, ar banel. Yn dilyn cyhoeddi llyfr newydd Mary, 'Curlew Moon', sy'n rhoi hanes ei thaith gerdded 500 milltir o arfordir gorllewinol Iwerddon i ddwyrain Lloegr, trafododd y panel yr heriau enfawr sy'n wynebu'r gylfinir ac amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod y polisïau a'r gweithrediadau priodol ar waith. Cytunwyd bod angen sicrhau bod ffermwyr, rheolwyr tir, cyrff cadwraeth, cyrff statudol a chymunedau lleol i gyd yn gefnogol os ydym am rwystro diflaniad y gylfinir yn y DU erbyn 2030. Bydd sicrhau bod ein polisi rheolaeth tir yng Nghymru yn briodol wedi Brexit yn hanfodol bwysig.

Beth yw prosiect Pencampwyr Rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn gytundeb rhyngwladol i warchod ein bywyd gwyllt gyda tharged i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Mae dull Cymru o reoli adnoddau naturiol drwy'r dull ecosystem - fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd - yn gorfodi diogelu rhywogaethau rhag colli cynefinoedd, llygredd a datblygiadau niweidiol. Trefnir Hyrwyddwyr Rhywogaethau gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'n chwaer Ddolenni yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Gofynnir i ACau - ochr yn ochr ag ASau, Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon - i roi cymorth gwleidyddol i amddiffyn bywyd gwyllt sydd dan fygythiad. Drwy fod yn Bencampwr Rhywogaethau, gall Aelodau'r Cynulliad ddysgu oddi wrth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru am y rhywogaethau, mynd ar ymweliadau safle i weld lle ceir hyd iddynt yn eu hetholaeth a dysgu am yr hyn sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru isod yw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect.